Adroddiad Cymunedau'n Gyntaf
Parc Sgeti - Mawrth 2010 (diwygiwyd 24/03/2010)

Ers mis Gorffennaf y llynedd, bu pedwar cyfarfod partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn canolbwyntio ar gytuno ar ffyrdd ymlaen mewn perthynas â materion, pryderon ac anghenion a nodwyd yng nghymuned Parc Sgeti . Mae cynnydd wedi bod yn dda iawn, gyda chefnogaeth gref gan sefydliadau a'r gymuned.

Yn 2010, cawsom gyfle i adeiladu ar y gwaith partneriaeth da hyd yn hyn, trwy ddatblygu Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf ymhellach, sefydlu datganiad cenhadaeth a strwythur y bartneriaeth, creu cyfleoedd hyfforddi a hyrwyddo gwasanaethau lleol sy'n diwallu anghenion pobl leol.

MAES GWAITH: Swyddi, Busnes a Chreu Incwm

Mae Working Links yn parhau i gynnig gwasanaeth gwerthfawr i'r ardal leol, gan roi cefnogaeth i'r rhai y mae angen help arnynt i ddod o hyd i waith. Mae Tina Smith yn rhedeg ei chymhorthfa o swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ac mae wedi dechrau gweld 24 o bobl yn ei sesiynau.

Bydd Cyngor Ar Bopeth (CAB) yn cynnal sesiynau rheoli arian a chyllidebu yn Ysgol Gynradd Parklands yn ystod mis Mawrth. Er eu bod yn swnio'n fawreddog, byddant yn rhoi canllaw byr i arian, gwario a chynilo, i gyd wedi'u hanelu at lefel addas ar gyfer plant ysgol gynradd. Mae CAB hefyd wedi trafod y posibilrwydd o helpu i gynnal rhaglen debyg wedi'i hanelu at oedolion yn y gymuned.

Bydd Undeb Credyd LASA yn dilyn y sesiynau ysgol, gan ddarparu clwb cynilion lleol i blant. Maent hefyd yn gallu rhoi cyngor rheoli arian a byddant yn gweithio gyda Chymunedau'n Gyntaf a phobl leol i sefydlu Undeb Credyd ym Mharc Sgeti .

Bydd Porth Gwaith Abertawe, menter newydd a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chymunedau'n Gyntaf, yr awdurdod lleol a sefydliadau cyflogaeth, yn cychwyn ganol 2010. Caiff y rhaglen ei chynnal mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i roi lefel uwch o gefnogaeth i bobl sydd am weithio ac yn ceisio dod â lefel fwy cyd-drefnus o waith ymysg asiantaethau cyflogaeth.

Rydym yn parhau i weithio i ddod â chyfleuster Man Arian Parod dim ffi (ATM) yn y gymuned ac rydym yn gweithio i nodi'r ardal fwyaf addas ac ymarferol i osod hwn ynddi.

MAES GWAITH: Addysg a Hyfforddiant

Rydym wedi cynnal diwrnod gwybodaeth hyfforddi llwyddiannus iawn gyda 22 o bobl yn bresennol. Mae hyfforddiant ac ymweliadau arfer da wedi'u trefnu yn y meysydd canlynol:
Cadw cofnodion, Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed, Sgiliau Pwyllgor, Trefnu Digwyddiad Cymunedol, Codi Arian yn Gynaliadwy, Hyfforddiant Amrywiaeth Diwylliannol, Ymwybyddiaeth

Diogelwch Plant, Hyfforddiant Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd Sylfaenol; a nifer o ymweliadau â Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf a phrosiectau cymunedol eraill.

Mae'r grŵp ffotograffiaeth ddigidol yn parhau i fod yn llwyddiannus ac mae ei aelodau'n ceisio estyn eu dysgu i TG a chyfrifiaduron. Felly, rydym yn ceisio dod o hyd i gyfleuster i gynnal hyfforddiant TG lleol.

Mae Café Convo yn Eglwys Parklands wedi dechrau a bydd yn ceisio datblygu cefnogaeth ar gyfer grwpiau ethnig, o bosibl trwy gyrsiau SSIE - Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Yn ystod sesiynau Café Convo, byddant yn trefnu bod dau gyfrifiadur, â mynediad am ddim i'r rhyngrwyd, ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

Mae Cymunedau'n Gyntaf yn gallu rhoi'r cyfle i aelodau'r gymuned, sydd â diddordeb mewn gwaith cymunedol, ddilyn cwrs NOCN mewn Datblygiad Cymunedol. Caiff y cwrs ei gyflwyno gan CGGA yn Abertawe, a Chymunedau'n Gyntaf yn talu amdano, gan gefnogi nodau'r bartneriaeth i ddatblygu sgiliau datblygu cymunedol ei aelodau.

MAES GWAITH: Diogelwch Cymunedol

Paneli PACT yw'r prif ganolbwynt o hyd, mewn perthynas â diogelwch cymunedol. Mae'r cynnydd ym mhresenoldeb yr heddlu dros y chwe mis diwethaf i wrthwynebu materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal wedi profi'n effeithiol wrth gynyddu ymdeimlad cyffredinol o les, ar sail adborth a roddwyd i staff Cymunedau'n Gyntaf.

Dyma flaenoriaethau PACT yn y cyfarfod diwethaf:

- Materion Diogelwch Ffyrdd yn Siopau Parkway. Crynodeb**:** Slabiau palmant anwastad o flaen y siopau yn Parkway'n achosi perygl i gerddwyr.
- Cymdogion Stwrllyd/Niwsans yng Ngelli Gwent a The Spinney, Parc Sgeti. Crynodeb**:** Ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gymdogion sy'n byw yng Ngelli Gwent a The Spinney, Parc Sgeti .
- Goryrru ar hyd Heol Gŵyr. Crynodeb**:** Cerbydau'n goryrru ar Heol Gŵyr wrth fynd i lawr tuag at Sgeti.
- Mae cyfarfod nesaf PACT wedi'i drefnu ar gyfer 22/04/2010 yng Nghanolfan Gymunedol Parc Sgeti; 7pm.

MAES GWAITH: Plant a Phobl Ifanc

Gwneir gwaith ardderchog gyda digwyddiadau Dwdlan i ddatblygu darpariaeth leol ar gyfer pobl rhwng 0 a 14 oed. Dechreuodd y grŵp hwn ar ôl digwyddiad Wythnos y Môr-ladron y llynedd ac ar hyn o bryd mae'n mynd o nerth i nerth gyda'r bobl leol yn gweithredu'r rhaglen gyfan. Mae'r grŵp wedi gwneud trefniadau i gyflwyno 7 digwyddiad yn ystod 2010. Cyflwynwyd 5 sesiwn chwarae ar gyfer plant rhwng 0 a 14 oed hyd yn hyn; llawer ohonynt â chefnogaeth Tîm Chwarae'r cyngor.

Roedd Wythnos y Môr-ladron yn llwyddiannus iawn gyda chyfartaledd o 90 y dydd yn bresennol yn ystod yr wythnos. Mae nifer o weithgareddau wedi'u datblygu yn sgîl hyn, gan gynnwys Pwyllgor Digwyddiadau Dwdlan.

Mae gwaith partneriaeth cryf yn parhau i ddatblygu gyda'r heddlu, cynghorwyr, eglwysi, y gwasanaeth ieuenctid ac ysgolion. Hyd yma ein ffocws oedd ystyried y ddarpariaeth, y cyfleusterau a'r adnoddau sydd ar gael i bobl ifanc leol (11-25 oed). Mae'r posibiliadau a ystyriwyd hyd yn hyn yn

cynnwys Ardal Gemau Aml-ddefnydd, man chwaraeon a hamdden y tu allan i'r ysgol a chynnydd lleol yn narpariaeth gweithwyr ieuenctid. Rydym yn awyddus i gynnwys aelodau'r gymuned leol yn y cyfarfodydd Darpariaeth Ieuenctid hyn.

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gennym i ddatblygu Tîm Gweithredu Ieuenctid gyda naw'n bresennol i gyd. Roedd ffactorau amrywiol yn atal nifer mawr rhag bod yn bresennol, gan gyfyngu ar y gweithdai y gallem eu gwneud yn ystod y diwrnod. Ar ôl y cyfarfod hwn, gwnaethom gynlluniau i drefnu nifer o weithgareddau a fydd yn datblygu'r grŵp hwn ymhellach.

Yn yr ychydig fisoedd diwethaf, buom yn llwyddiannus mewn cynnig Cymunedau'n Gyntaf a Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer gwaith ieuenctid ychwanegol yn yr ardal hon. Roedd hyn yn gyfystyr â swyddi ychwanegol ar gyfer dau weithiwr rhan-amser dros y ddwy flynedd nesaf ym Mharc Sgeti . Bydd un swydd â golwg strategol ar ddarpariaeth ieuenctid ym Mharc Sgeti .

Aeth 43 o bobl ifanc i Ddiwrnod Ieuenctid a gyflwynwyd ym mis Chwefror; presenoldeb da o ystyried y tywydd oer a'r eirlaw a'r eira. Ar y diwrnod, roeddem wedi trefnu rhediad bungee, ceffyl gwyllt sy'n taflu, llyfnffrwythau a chebabau ffrwythau; chwaraeon pêl, tair sesiwn ddawnsio a pharc sglefyrddio. Roedd hwn yn ddigwyddiad llwyddiannus gyda sefydliadau'n dangos gwaith partneriaeth ardderchog.

MAES GWAITH: Iechyd a Lles

Cafwyd trafodaethau â'r Tîm Gweithredu yn erbyn Camddefnyddio Sylweddau (SMAT) ar ffocws posibl ar gyfer gwaith allgymorth yn yr ardal. Mae SMAT wedi cytuno i wneud cyflwyniad i'r bartneriaeth yn ystod 2010, gan obeithio cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sy'n weithredol ar hyn o bryd. Mae hyn hefyd er mwyn nodi sut gallwn gefnogi eu gwaith wrth fynd i'r afael â'r materion yn lleol. Bydd y cyfarfod hwn yn gyfle da i drafod pryderon a gobeithion trigolion mewn perthynas â'r ardal anodd hon.

MAES GWAITH: Yr Amgylchedd

Yn fuan, bydd trigolion Clyne Court yn elwa ar gyfleuster ailgylchu newydd ar gefn y fflatiau'n hwyrach eleni. Mae Cymdeithas y Trigolion wedi gweithio'n galed i ddatblygu eu sefydliad ac ymysg llawer o'r gwaith da maent wedi'i wneud hyd yn hyn, maent wedi sicrhau'r cyfleuster ailgylchu newydd hwn trwy Drefi Taclus.

Mae'r grŵp ffotograffiaeth ddigidol yn parhau i nodi meysydd i'w cynnwys mewn 'map gwyrdd' o Barc Sgeti .

Rydym wedi nodi nifer o feysydd datblygu posibl ym Mharc Sgeti a byddwn yn dilyn posibiliadau gyda sefydliadau perthnasol dros y misoedd nesaf. Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn gefnogol iawn i'r cynlluniau i ddatblygu'r grŵp amgylchedd lleol ac mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru hefyd wedi cytuno i gefnogi'r gwaith datblygu lleol.

MAES GWAITH: Cyfranogiad

Trefnwyd bod llawer o gyfleoedd ar gael i aelodau'r gymuned gyfrannu at gynlluniau a phrosiectau lleol. Mae Cymdeithas Trigolion Clyne Court yn datblygu gyda grŵp craidd o bobl sy'n awyddus i weld gwelliannau a newid. Mae pobl ifanc leol wedi rhoi cymorth ac adborth trwy weithgareddau

amrywiol. Mae cylchlythyrau, sesiynau cymhorthfa, swyddfa leol a'n gwaith gyda grwpiau i gyd wedi cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfraniad cymunedol a fydd yn cyfarwyddo gwaith partneriaid Cymunedau'n Gyntaf.

Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol wrth feithrin perthnasoedd a chysylltiadau â phartneriaid ac aelodau'r gymuned. Mae partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer datblygu fforwm lleol, a fydd yn arwain newidiadau a buddion. Mae Digwyddiadau Dwdlan a'r Grŵp Ffotograffiaeth Ddigidol hefyd wedi datblygu'n dda iawn dros yr ychydig fisoedd diwethaf ac yn ddi-os byddant yn bwysig wrth ddod â gweithgareddau a gwasanaethau i'r ardal.

Trefnwyd hyfforddiant wedi'i ariannu drwy Gymunedau'n Gyntaf gyda chyfanswm o 9 grŵp ym Mharc Sgeti eisoes yn dangos diddordeb mewn dod. Mae'r gwaith hwn a'r gefnogaeth barhaol i ddatblygu strwythurau, nodau ac amcanion, heb anghofio am gefnogaeth i gael cyllid, wedi helpu i atgyfnerthu'r grwpiau dros y misoedd. Mae'n amlwg bod y cyfleoedd partneriaeth a rhwydweithio amrywiol sydd ar gael trwy Gymunedau'n Gyntaf wedi cynyddu'r ymdeimlad eu bod 'ynddi gyda'i gilydd'. Mae hyn yn helpu i adeiladu ysbryd a hunaniaeth cymunedol a'n bwriad yw parhau i ganolbwyntio ar y gwaith hwn i ddathlu pa mor fuddiol a dyfeisgar mae pobl leol a grwpiau cymunedol.

Dyfarnwyd £9658.99 i Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf yn 2009. Gwnaeth 7 grŵp gais. Mae £10,000 ar gael ar gyfer y flwyddyn hon, felly cysylltwch â'r Tîm Cymunedau'n Gyntaf am gymorth wrth wneud cais am yr arian hwn.

Mae Cymunedau'n Gyntaf wedi cyfarfod â nifer o ddarparwyr gwasanaeth gwahanol, y mae llawer ohonynt bellach yn rhan arwyddocaol o'r gwaith partneriaeth parhaol. Mae'r gwaith hwn, gyda chefnogaeth gadarnhaol iawn gan gynghorwyr lleol, wedi sicrhau dechrau cadarn i raglen Cymunedau'n Gyntaf Parc Sgeti . Er bod safbwynt y wasg genedlaethol ac adroddiadau'n feirniadol iawn o'r rhaglen ar draws Cymru, mae tystiolaeth gref iawn o'r gwaith eithriadol mae cymunedau, sefydliadau a gwirfoddolwyr yn gallu ei wneud ar lawr gwlad.

<u>MAES GWAITH: Gwybodaeth a Chyfathrebu:</u>

Rydym wedi llunio dau rifyn o gylchlythyr Parc Sgeti, o'r enw parcsgeti.org. Bydd y cylchlythyr yn datblygu dros amser, yn unol â chyfraniad ac arweiniad lleol. Bwriedir llunio'r erthygl nesaf ddiwedd mis Ebrill ac rydym nawr yn ystyried llunio dau rifyn mawr y flwyddyn gyda bwletinau llai'n cael eu llunio'n rheolaidd.

Mae ein gwefan, www.parcsgeti.org, yn gweithio ac yn cynnwys gwybodaeth, adroddiadau a dyddiadau ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau dros y misoedd nesaf. Mae'r cylchlythyr hwn fel arfer yn cael ei ddiweddaru ar ôl pob cylchlythyr a chyfarfod partneriaeth.

Jason Williams
Cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf Parc Sgeti

City and County of Swansea · Dinas a Sir Abertawe
Sketty Park 1 communities first cymunedau yn gyntaf
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government